Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymdeithas Heb Arian Parod?

## P-6-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian

Elfen allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant ariannol a digidol yw bod arnom eisiau i bawb allu cymryd rhan mewn gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion nhw.

Mae cynhwysiant ariannol yn rhan allweddol o gyfiawnder cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynhwysiant ariannol drwy'r "Cynllun Cyflenwi i Gymru" ar lesiant ariannol y mae'n berchen arno ar y cyd â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS).

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau strategol â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, LINK a Cash Access UK ac mae'n cysylltu â'r sefydliadau hyn yn gyson i hyrwyddo anghenion penodol cymunedau Cymru ac adrannau o'r boblogaeth.

Er bod cynhwysiant ariannol wedi'i ddatganoli i Gymru, mae gwasanaethau ariannol yn fater a gedwir yn ôl. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei safbwyntiau i Lywodraeth y DU yn uniongyrchol a thrwy bwyllgorau Llywodraeth y DU fel y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig.

Er bod fframwaith deddfwriaethol presennol y DU, gan gynnwys y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol (2023), yn diogelu mynediad at arian parod am ddim, sydd i'w groesawu, nid yw'n diogelu darpariaeth bancio ffisegol drwy ganghennau sef rhywbeth mae llawer yn dibynnu arno, gan gynnwys y rheini sy'n fwy agored i niwed megis pobl hŷn a phobl anabl. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw gweithio gyda LINK a Cash Access UK i gyflymu'r gwaith o ddarparu hybiau bancio a rennir a chyfleusterau adneuo gwell ar hyd a lled Cymru

Nodir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

# Cynnwys

**1. Argymhelliad 1 ..... 4**

**2. Argymhelliad 2 ..... 6**

**3. Argymhelliad 3 ..... 8**

**4. Argymhelliad 4 ..... 11**

**5. Argymhelliad 5 ..... 13**

# 1. Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ofynnol i bob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus dderbyn taliadau arian parod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd gan rai sefydliadau gyfleusterau mwyach i dderbyn arian parod neu adneuo arian parod yn lleol, ac felly bydd angen cymorth ac arweiniad arnynt.

### Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Pwyllgor ei hun yn cydnabod nad oes gan rai sefydliadau gyfleusterau mwyach i dderbyn arian parod neu adneuo arian parod yn lleol. Ar ben hynny, nid oes gan Lywodraeth Cymru yr arfau cyfreithiol i ofyn i bob sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus dderbyn taliadau arian parod. Ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, byddai newid o'r fath yn gofyn am delerau ac amodau caffael neu gyllid grant diwygiedig a byddai ond yn gweithio i sefydliadau sydd â'r capasiti a'r gallu i gynnig llwybr digidol a heb fod yn ddigidol.

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn nodi bod trawsnewid digidol yn golygu newid diwylliant – creu gwasanaethau ar-lein sydd mor dda bod pobl yn dewis eu defnyddio ac eisiau eu defnyddio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid gorfodi gwasanaethau digidol. Mae'r Strategaeth Ddigidol hefyd yn ein hymrwymo i degwch ac i gynhwysiant, ac mae hi'n hanfodol bod modd cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yn y ffordd mae defnyddwyr gwasanaeth yn bwriadu eu defnyddio

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu wedi datgan bod cynhwysiant ariannol i bobl sydd ag anableddau dysgu yn bwnc trafod gan edrych ar effaith negyddol bosibl cymdeithas heb arian parod. Cydnabyddir bod llawer o bobl ag anableddau dysgu yn dibynnu ar gyllidebu gydag arian parod a defnyddio arian parod mewn siopau ac am wasanaethau, er mwyn iddynt allu byw bywydau annibynnol. Mae deiseb Senedd wedi cael ei chodi ar y mater hwn hefyd - a bydd y Pwyllgor Deisebau yn ei hystyried os bydd digon o bobl yn ei llofnodi.

### Goblygiadau ariannol

Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol oherwydd bod yr argymhelliad hwn yn cael ei wrthod.

# 2. Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil yn y maes hwn i archwilio'n llawn y cymhlethdodau a'r heriau sy'n wynebu pobl nad ydynt yn defnyddio taliadau digidol, eu teuluoedd, gweithwyr cymorth, darparwyr gofal preswyl, busnesau preifat a sefydliadau sector cyhoeddus. Dylai hyn ganolbwyntio hefyd ar archwilio atebion i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i fod yn ddinasyddion gweithgar sy'n gallu byw mor annibynnol â phosibl a chael yr un cyfleoedd â'r rhai sy'n defnyddio dulliau talu digidol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor

Drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) wedi datblygu Safonau Gwasanaeth Digidol sy'n nodi beth a ddisgwylir gan wasanaethau digidol newydd neu sy'n cael eu hailddylunio ac sy'n derbyn arian gan sefydliadau sector cyhoeddus Cymru. Mae'r safonau'n tynnu sylw at bwysigrwydd dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a bod llwybrau heb fod yn rhai digidol yn dal ar gael er mwyn i bobl allu cael gafael ar wasanaethau. Maent hefyd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion defnyddwyr, gan gynnwys llesiant pobl yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran comisiynu'r gwaith o ymchwilio a gweithredu gwaith i nodi Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru[1]. Mae'r gwaith hwn wedi nodi diffiniad ac mae prosiectau peilot yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, dan arweiniad cymdeithasau tai, i brofi'r cysyniad ac i ddysgu o amrywiaeth o fathau o aelwydydd. Bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu gwerthuso ym mis Mawrth 2025 a'u defnyddio i lywio gwaith yn y dyfodol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'r Good Things Foundation i ehangu ymchwil i'r cysyniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i ystod ehangach o fathau o aelwydydd, gan gynnwys pobl hŷn ac aelwydydd heb blant.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu'r ymchwil a wnaed gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn yr adroddiad Dim Mynediad : profiadau pobl hŷn o allgáu digidol yng Nghymru a'r Adroddiad Cynnydd dilynol sy'n amlinellu'r angen am ragor o waith er mwyn i bobl hŷn allu cael gafael ar wybodaeth a

[1] **Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: adroddiad terfynol (crynodeb) [HTML] | LLYW.CYMRU**; **Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid [HTML] | LLYW.CYMRU**.

gwasanaethau hanfodol ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ymchwil hon i arwain gwaith mewnol ac i helpu i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol.

Mae'r pwyntiau hyn yn tanlinellu cymhlethdod cynhwysiant digidol ac ariannol a'r ffaith nad yw perchnogaeth dros weithredu ac atebion posibl yn perthyn i un sefydliad neu sector yn unig. Er enghraifft, pan na fydd unigolyn yn gallu rheoli ei arian ei hun, ceir canllawiau statudol sy'n nodi pa gamau mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth eu cymryd i helpu i reoli arian ar ran yr unigolyn. Rhaid canolbwyntio felly ar sectorau'n cydweithio a phob un yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr agweddau maent yn gallu eu rheoli.

Mae hyn yn cynnwys y meysydd mae Llywodraeth y DU yn eu rheoli – gwasanaethau ariannol a deddfwriaeth fel Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2023 sy'n ceisio diogelu mynediad at arian parod ond nid yw'n diogelu darparu gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb.

## Goblygiadau Ariannol

Bydd gwaith ymchwil yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru yn galw am ymrwymiadau cyllido newydd yn y dyfodol. Ni fyddai modd defnyddio cyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli i dalu am gostau ychwanegol.

# 3. Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu, sefydliadau anabledd dysgu, sefydliadau pobl hŷn, sefydliadau gofal a chymorth, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r gymuned fusnes i ddatblygu a chyflwyno ymgyrch i addysgu a gwella dealltwriaeth o sut y bydd cymdeithas heb arian parod yn allgáu rhai pobl. Gellid targedu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd at ddarparwyr gwasanaethau a busnesau a datblygu ymagweddau cadarnhaol, megis arwydd clir sy'n nodi a yw'r lleoliad neu'r busnes yn derbyn arian parod ai peidio. Byddai hyn yn mynd beth o'r ffordd tuag at leihau ac osgoi rhai o'r profiadau gofidus i bobl sy'n defnyddio arian parod yn unig.

### Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor

Ers 2023 mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr wedi gosod safonau uwch a chliriach o ran diogelu defnyddwyr ar draws gwasanaethau ariannol ac mae'n mynnu bod cwmnïau'n rhoi eu cwsmeriaid yn gyntaf.  Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn hyn o beth ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i dynnu sylw at anghenion defnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys defnyddwyr ag anableddau.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ymgynghoriad "Access to Cash" yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ym mis Chwefror 2024 a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynediad parhaus at arian parod am ddim yn enwedig i'n cymunedau mwyaf agored i niwed ac amlinellodd y darpariaethau unigryw y mae angen eu hystyried yng Nghymru ee defnyddio mwy na mesuriadau llinell syth wrth ddangos pa mor agos yw peiriannau arian parod ATM am ddim. Disgwylir y bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2024.

Ar 24 Mawrth 2024, ar y cyd â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad a ddaeth â rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd i drafod "Bancio yng Nghymunedau Cymru".  Roedd y digwyddiad yn cynnwys diweddariad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar yr ymgynghoriad "Access to Cash" a thrafodwyd y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan amrywiaeth o randdeiliaid.  Mae rhai o'r camau hyn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ar

draws pob sefydliad a mudiad ariannol er mwyn gwella taith y cwsmer ac er mwyn atal cwsmeriaid rhag cael benthyciadau nad ydynt yn rhai moesegol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda LINK i sicrhau bod mynediad am ddim at arian parod yn cael ei gynnal ar hyd a lled Cymru.  Ar 14 Mai 2024, cynhaliodd LINK ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth yn y Senedd, lle bu'n siarad â nifer o Aelodau o'r Senedd.  Nod y digwyddiad hwn oedd rhannu gwybodaeth am waith LINK gan gynnwys ei waith yn asesu cymunedau i ddarparu hybiau bancio a rennir, cyflwyno mwy o wasanaethau adneuo a darparu gwasanaethau 'arian parod wrth y til' yn ogystal â chynnal mynediad am ddim at arian parod drwy rwydwaith ATM y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth eang o fudiadau trydydd sector a gwirfoddol i sicrhau bod hawliau'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu – mae hyn yn cynnwys eu hawliau i gael gafael ar wasanaethau ariannol. Mae gan Lywodraeth Cymru Fforwm Cydraddoldeb Anabledd sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau pobl anabl a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Mae'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl newydd gwblhau ei gyfarfodydd a bydd nawr yn symud ymlaen i ystyried yr argymhellion a gydgynhyrchwyd sydd wedi deillio o'r deg gweithgor thematig. Roedd y Tasglu Hawliau Anabledd a'r gweithgorau'n cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau pobl anabl, unigolion sydd â phrofiad bywyd, swyddogion, a chyrff cynrychioladol, a gododd ymwybyddiaeth o'r llu o faterion cymhleth a thrawsbynciol sy'n wynebu pobl.

Er mwyn atal allgáu digidol neu ddylunio anhygyrch i bobl anabl, mae gweithgorau thematig y Tasglu Hawliau Pobl Anabl wedi pwysleisio pwysigrwydd parhau i ddarparu opsiynau amgen i wasanaethau ar-lein. Y tair thema drawsbynciol allweddol ar draws y gweithgorau i gyd yw mynediad, cynhwysiant a chyfranogiad ar gyfer pobl anabl.  Er enghraifft, mae'r gweithgor 'Teithio' wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod modd prynu tocynnau wyneb yn wyneb mewn gorsafoedd ac ar drenau, yn ogystal â sicrhau bod system docynnu glyfar yn gwbl hygyrch ac nad yw'n creu rhwystrau ychwanegol i bobl anabl.

## Goblygiadau ariannol

Dim.  Mae codi ymwybyddiaeth yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng pob sector, a phob sefydliad neu fusnes unigol sy'n gyfrifol am ei weithredu.

# 4. Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddatblygu ffyrdd y gall oedolion agored i niwed gyfranogi wrth brynu nwyddau a gwasanaethau mewn cymdeithas heb arian parod.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae arian parod yn dal yn rhan hanfodol o'n heconomi ac nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod cymdeithas heb arian parod yn anochel. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth gweithio gyda sefydliadau perthnasol i gefnogi oedolion agored i niwed o ystyried y tueddiadau o ran derbyn arian parod. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol sydd bellach â staff sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â LINK a Cash Access UK2 – y sefydliad sy'n gyfrifol am gyflwyno hybiau bancio a rennir yn y DU.

Erbyn hyn, mae 5 hwb bancio a rennir ar waith yng Nghymru – y Trallwng, Porthcawl, Prestatyn, Treorci ac Abergele.  Mae 5 hwb bancio a rennir ychwanegol yn cael eu datblygu – yn Abertyleri, Treforys, Aberpennar, Rhisga a'r Fflint.  Mae cyfleusterau adneuo gwell hefyd wedi cael eu hargymell mewn 11 cymuned, gan gynnwys yn Ystrad Mynach, y Bont-faen a'r Mwmbwls.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Cash Access UK mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol perthnasol i geisio mynd ati'n gynt i ddod o hyd i adeiladau addas yn y pedair ardal lle nad yw'r hwb ar waith eto.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i Ymgynghoriad Access to Cash3 yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r alwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig "Ydy banciau'r stryd fawr yn gadael Cymru ar ôl?" ym mis Mawrth 2024.  Fel rhan o'r ymatebion hyn, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at anghenion y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas – gan gynnwys

[2] **Cash Access UK - Hybiau**

[3] **CP23/29: Access to cash | FCA**

mynediad at arian parod heb ffioedd ychwanegol, daearyddiaeth unigryw Cymru sy'n golygu bod angen mesur mwy na'r pellter mewn llinell syth o Swyddfeydd Post, peiriannau ATM ac ati a phwysigrwydd cadw gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb yn ein cymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â LINK. LINK yw rhwydwaith peiriannau arian parod (ATM) y DU ac mae'n cefnogi mynediad at arian parod drwy bennu'r rheolau i weithredwyr peiriannau ATM sydd am i'w peiriannau arian parod fod yn rhan o Rwydwaith ATM y DU neu gyhoeddwyr cardiau sydd eisiau i ddeiliaid eu cardiau allu defnyddio Rhwydwaith ATM y DU. LINK sy'n rheoli rhan gyntaf y broses o ofyn am asesiad adolygiad o fynediad at arian parod a all arwain at ddarparu hwb bancio a rennir4. Drwy ei waith cynhwysiant ariannol, mae LINK wedi nodi mai'r cymunedau mwyaf difreintiedig sydd â'r angen mwyaf am fynediad parhaus at arian parod.

Mae'r LINK cash locator yn gallu dod o hyd i fynediad at arian parod am ddim mewn ardaloedd lleol ac mae ar gael ar-lein5.

## Goblygiadau ariannol

Dim. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r gwaith ymgysylltu strategol ehangach mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud.

[4] **LINK / Cash Access Review Process**

[5] **LINK / Cash Locator**

# 5. Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad at gyfleusterau bancio yn y gymuned er mwyn cefnogi busnesau i barhau i ddefnyddio ac adneuo arian parod a chefnogi anghenion bancio pobl ag anableddau dysgu.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae gwasanaethau ariannol yn fater a gedwir yn ôl. Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i sicrhau mynediad o'r fath ond mae'n gallu gweithio i ryw raddau gyda'r pwerau sydd ganddi.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws yr ecosystem credyd, benthyca a chynghori moesegol yng Nghymru i rannu arferion gorau a hybu cydweithio – gan gynnwys darparu cyfleusterau bancio yn y gymuned. Mae'r Rhwydwaith Benthycwyr Cyfrifol, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, yn dod â'r sector at ei gilydd ddwywaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r grŵp yn rhannu syniadau a gwybodaeth am bob agwedd ar gredyd a benthyca moesegol ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant ariannol, gan gynnwys ar lefel gymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi parhau i gyflwyno hybiau bancio a rennir fel ymateb i golli gwasanaethau bancio ffisegol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru. Mae darparu'r llwybr wyneb yn wyneb hwn nad yw'n ddigidol at wasanaethau ariannol yn hanfodol i lawer o bobl agored i niwed, gan gynnwys unigolion sydd ag anableddau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio ei Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl i ymgysylltu â phobl anabl a sefydliadau cynrychioladol i drafod ac i ganfod datrysiadau i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Mae'r fforwm yn gallu dylanwadu ar bolisi ehangach drwy dynnu sylw Gweinidogion Cymru at faterion pwysig. Ar 28 Medi 2023, roedd y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl wedi trafod a oedd cymdeithas heb arian parod yn rhwystr arall i bobl anabl a chytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gynnal trafodaeth bellach mewn cyfarfod dilynol.

Goblygiadau ariannol

Dim.  Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r gwaith ymgysylltu strategol ehangach mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud.